

Ymyrraeth	Mannau Gwyrdd a Diogel		Gwyrdd	Cynnydd yn unol â'r targed ar hyn o bryd	
			Melyn	Cynnydd heb fwrw'r targed, ond yn gyraeddadwy o hyd	
Yn Arwain	Steve Morgan a Huw Jakeway	Cyfnod Adrodd	Ch 1 2021-22	Coch	Cynnydd ymhell o fwrw'r targed

Prif Gyflawniadau a Llwyddiannau		
Gweithdy rhwydwaith (Ebrill 2021), cyflwynwyd camau Gwyrdd a Diogel newydd i lywio'r gwaith o gyflawni gweledigaeth gydgyssylltiedig ar draws nodau cyffredin. Crëwyd brwdfrydedd, rhwydweithio, a gwaith partneriaeth.		
Eleni, cynyddodd Cyngor Dinas Casnewydd (CDC) safleoedd pryfed peillio o 21, i gyfanswm o 55 o safleoedd ledled Casnewydd. Cynyddodd ymgyrch Dim Torri ym Mai gan CDC gynefinoedd ar gyfer pryfed peillio. Mae rhywogaethau mwy prin ac anfynych yn genedlaethol wedi'u cofnodi mewn mwy o leoliadau. Arweiniodd at sgwrs ar ei bwysigrwydd gyda'r gwersi a ddysgwyd i adeiladu arnynt ar gyfer 2022.		
Crëwyd dangosfwrdd data diogelwch drwy waith partneriaeth cryf, gan droslunio achosion o dipio anghyfreithlon, llosgi bwriadol, data troseddau gyda mannau gwyrdd i ganolbwyntio ymdrechion ar y cyd a dod o hyd i atebion i wneud mannau gwyrdd yn ddiogel ac yn hygyrch i bawb.		
Pedwerydd e-gylchlythyr â dyddiad cyhoeddi mis Awst 2021, yn parhau i rannu a hyrwyddo gwaith y Rhwydwaith Gwyrdd a Diogel, cyfleoedd i gydweithio, yr adroddiadau diweddaraf, adnoddau a newyddion ariannu. Mwy o bresenoldeb ar y cyfryngau cymdeithasol yn hyrwyddo gwaith y Rhwydwaith ac ymyrraeth. Datblygu cynllun prosiect cyfathrebu strwythuredig.		
Mae gan 3 safle erddi glaw newydd a gwell plannu ar gyfer bioamrywiaeth (rhan o wyrddio canol y ddinas - Bwa Gwyrdd) a gwblhawyd ym mis Mehefin 2021. Cynlluniau ar gyfer mwy ar hyd glan yr afon ac fel rhan o bont droed Devon Place.		
Crëwyd Cronfa Ddata Seilwaith Gwyrdd/map amlhaenog o Gasnewydd, sy'n cynnig defnyddiau a chyfleoedd lluosog. Y cam nesaf yw gwneud y data'n gyhoeddus.		
Baner Werdd yn cael ei hyrwyddo yn eang; mae gan sawl un ddi-ddordeb yng ngheisiadau 2022		
Gweithdy Rhagnodi cymdeithasol Gwyrdd gyda darparwyr gweithgareddau gwyrdd a Rhwydwaith Gofal Cymdogaeth (RhGC). Bwriad i weithio tuag at Ragnodi Cymdeithasol Gwyrdd yng Ngwent gyfan.		
Cefnogi Cyn-filwyr Casnewydd i gael a datblygu llain rhandir CDC, ar gyfer gweithgareddau awyr agored / garddwriaeth er lles cyn-filwyr.		
Mae gwaith adnewyddu ar y mesurau perfformiad ar y gweill, i'w gwblhau erbyn diwedd 2021.		
Pecynnau Tyfu Bwyd cartref peilot yn Hyb Ringland a ariennir gan Rwydwaith Gofal Integredig Casnewydd, i annog rhoi cynnig ar dyfu'ch bwyd eich hun. Gwersi a ddysgwyd i ystyried cyflwyno'n ehangach y flwyddyn nesaf.		
Prif Risgiau / Rhwystrau i gynnydd	Statws (U/C/I)	Camau Lliniaru / Y Cymorth Sydd ei Angen
Mannau gwyrdd nad ydynt wedi'u hamddiffyn yn ddigonol yn y broses gynllunio	Canolig	Sicrhau y defnyddir cronfa ddata Seilwaith Gwyrdd yn y broses gynllunio a'r Cynllun Datblygu Lleol. Mae Asesiad Seilwaith Gwyrdd ar y gweill, gan greu sylfaen dystiolaeth ar gyfer y Canllawiau Cynllunio Atodol Seilwaith Gwyrdd
Gallu partneriaid BGC i gyflawni yn erbyn uchelgeisiau ymyrraeth Gwyrdd a Diogel.	Uchel	Cynrychiolwyr sefydliadau partner i godi pwysigrwydd y Cynllun Lles/ymyrraeth mewn cyfarfodydd cynllunio busnes mewnol.
Cyfyngiadau Covid-19	Canolig	Parhau i gyfathrebu ar-lein i gefnogi'r Rhwydwaith Gwyrdd a Diogel. Wrth i gyfyngiadau lacio, adeiladu ar y cysylltiadau gwaith cryf a grëwyd.

Mesuriadau Perfformiad Allweddol* (*mesuriadau sy'n cael eu hadolygu)	Targed	Gwirioneddol	CMG
Aelodau'r Rhwydwaith Gwyrdd a Diogel	50	132	Gwyrdd
Prosiectau'r Rhwydwaith Mannau Gwyrdd a Diogel sy'n mynd rhagddynt ar hyn o bryd	25	24	Gwyrdd
Grwpiau cymunedol sy'n rhan o'r Rhwydwaith Mannau Gwyrdd a Diogel		12	Gwyrdd
Gweithdai rhwydwaith	3 y flwyddyn	1	Gwyrdd
Nifer y bobl oedd yn bresennol yn y gweithdy diwethaf	30	32	Gwyrdd
Nifer y ceisiadau am faneri cymunedol a gyflwynwyd (disgwylir Ionawr 2022)	5	0	Gwyrdd
Ceisiadau llwyddiannus am faner werdd gymunedol erbyn 2023	8	3 (disgwyliedig)	Gwyrdd
Safleoedd sy'n bodloni meini prawf Baner Werdd llawn erbyn 2023	5	3	Gwyrdd

Cynlluniau ar gyfer y chwarter nesaf
Parhau i gryfhau cysylltiadau â Chasnewydd Ddiogelach ac is-grwpiau
Cynllunio gweithdy Rhwydwaith nesaf ar gyfer Gorffennaf/Awst 2021 i wneud rhagor o waith partneriaeth a chyflawni nodau cyffredin, parhau i ehangu ac arallgyfeirio'r rhwydwaith
Parhau i gryfhau cysylltiadau â chanolfannau cymunedol i hyrwyddo manteision lles mannau gwyrdd.
Parhau i edrych ar ddatblygu gofod cymunedol ym mharc Belle Vue.
Parhau i ddatblygu prosiectau gwyrdd newydd ym Metws.
Parhau i gryfhau'r cysylltiadau â Dŵr Cymru ynghylch: Systemau Draenio Cynaliadwy (SDCau).
Parhau i gryfhau cysylltiadau a chyfleoedd gyda Chymdeithasau Tai.
Parhau i weithio gyda GAVO a'r Rhwydwaith Gwyrdd a Diogel i hyrwyddo cyfleoedd gwirfoddoli gwyrdd.
Cefnogi ceisiadau'r Faner Werdd.
Parhau i gefnogi to gwyrdd, wal werdd, a phlannu brodorol ym mhrosiect newydd y Ganolfan Hamdden ar lan yr afon.